# Gofalu am geffylau rasio ar ôl rasio

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys gofalu am geffylau rasio ar ôl iddynt rasio mewn unrhyw gyfarfod sy'n cael ei gydnabod gan yr Awdurdod Caeau Rasio. Byddwch yn gallu dewis yr offer a'r deunyddiau priodol er mwyn gwneud tasgau arferol fel tawelu, golchi, gosod carthenni a gwiriadau iechyd.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at y ceffyl rasio yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. rheoli'r ceffyl rasio ar ôl y ras
4. arwain y ceffyl rasio i'r lleoliad priodol, yn unol â'r cyfarwyddiadau
5. gofalu am y ceffyl rasio ar ôl y ras
6. nodi unrhyw broblemau iechyd a chyflwr y ceffyl rasio a hysbysu'r person priodol yn eu cylch
7. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddefnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. y pryderon iechyd a lles sy'n gysylltiedig â rasio a'r camau i'w cymryd
3. y peryglon yr ydych yn debygol o ddod ar eu traws wrth reoli ceffylau rasio ar ôl rasio
4. y gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn ar ôl y ras, yn cynnwys arwain enillwyr i lociau ac arwain ceffylau i'r bocs milfeddygol
5. rheolau atal camddefnyddio cyffuriau a gweithdrefnau profi am gyffuriau
6. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
7. pwysigrwydd darparu dwr yn gywir ar ôl rasio
8. y problemau iechyd a allai ddigwydd ar ôl rasio, yn cynnwys cloffni a mân anafiadau
9. y peryglon i geffylau rasio, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
10. rôl y gof, y milfeddyg a swyddogion y cae rasio pan fydd angen eu cymorth arnoch
11. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Arwain y ceffyl rasio i un o'r lleoliadau canlynol:

- lloc yr enillwyr
- lloc tynnu'r cyfrwy
- bocs milfeddygol

Darparu gweithdrefnau ar ôl rasio:

- tawelu
- golchi
- gosod carthenni
- gwiriadau iechyd

Gofalu am geffylau rasio ar ôl rasio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq225 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; ras; marchogaeth; iechyd a lles anifeiliaid |